Hawdd ei Ddeall

Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional Partnership

# Ein cynllun ar gyfer gwirfoddoli

## Beth fyddwn ni'n ei wneud



Mae'r llyfryn yma wedi cael ei ysgrifennu gan **Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Gwirfoddoli**'.

Ionawr 2024

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma lyfryn hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 15**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.westglamorgan.org.uk/cy

**E-bost:** west.glamorgan@swansea.gov.uk

**Ffôn:** 01792 633 805

Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y llyfryn yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma** .......... **2**

**Amdanom ni a'r llyfryn yma** .......... **4**

Beth mae gwirfoddoli'n ei feddwl .......... 5

**Pam rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma** .......... **6**


**Beth rydyn ni wedi ei gytuno** .......... **9**

**Cynllun gweithredu** .......... **13**

**Geiriau anodd** .......... **15**

# Amdanom ni a'r llyfryn yma

Ni ydy **Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg**.




Rydyn ni yn grŵp o sefydliadau yn ardal Gorllewin Morgannwg, sy'n cynnwys **Castell-nedd Port Talbot** ac **Abertawe**.



Y sefydliadau yn ein grŵp ydy:

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
- Tîm Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg




Rydyn ni eisiau gwneud cynllun da ar gyfer gwirfoddoli yn ein hardal.




Rydyn ni eisiau cytuno ar beth mae gwirfoddoli'n ei feddwl a sut i helpu gwirfoddolwyr yn well.

## Beth mae gwirfoddoli'n ei feddwl




Rydyn ni wedi cytuno bod gwirfoddoli yn meddwl pan fyddwch chi yn dewis gwneud rhywbeth da i eraill heb gael eich talu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae hyn yr un ystyr y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio.

# Pam rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma



Rydyn ni eisiau gwneud gwirfoddoli'n well. Rydyn ni yn gwybod bod pob sefydliad yn wahanol ac mae ganddyn nhw anghenion gwahanol.




Dydy cael gwirfoddolwyr ddim yn rhad ac am ddim. Mae angen i ni wario arian ac amser i helpu gwirfoddolwyr i wneud eu tasgau'n dda ac mewn ffordd ddiogel.



Pan fydd gennym wirfoddolwyr, fe ddylen ni gynllunio sut i dalu am eu hyfforddiant a'u costau.



Mae rhywfaint o wirfoddoli yn fwy peryglus nag eraill. Mae'n rhaid i ni:



- Cadw gwirfoddolwyr ac eraill yn ddiogel.



- Gwneud asesiadau risg. Mae hyn yn gweld beth ydy'r risgiau a sut i'w gwneud yn llai.




- Talu am yswiriant.




- Gwneud rolau da i wirfoddolwyr.



Mae gwybod sut i helpu gwirfoddolwyr gwahanol yn rhan bwysig o'r cynllun yma.

Rydyn ni eisiau:



- Gwneud pethau'n well yn ein hardal, fel bod mwy o bobl yn gallu gwirfoddoli.



- Helpu gwirfoddolwyr, fel eu bod nhw yn gallu gwneud pethau da i'n hardal.



- Casglu gwybodaeth yn yr un ffordd, fel bod un gwirfoddolwr yn gallu symud rhwng gwahanol sefydliadau.

# Beth rydyn ni wedi ei gytuno



Mae gennym ni brosiect o'r enw **Prosiect Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg**.

Yn 2022 fe wnaeth y prosiect siarad gyda sefydliadau eraill a'u gwirfoddolwyr. Roedd hyn er mwyn dysgu mwy am wirfoddoli yn ein hardal.

O beth mae'r prosiect wedi'i ddysgu, rydyn ni wedi cytuno:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1. Defnyddio'r un ystyr o'r gair gwirfoddoli â Llywodraeth Cymru.




2. Cefnogi a dathlu gwirfoddolwyr. Dweud wrth fwy o bobl am wirfoddoli.



3. Esbonio'r gwahanol ffyrdd o wirfoddoli a sut i helpu gwirfoddolwyr.



4. Dewis a diogelu gwirfoddolwyr yn dda. Hyfforddi nhw a’u harwain. Gwneud rheolau a chynlluniau i’w cadw’n ddiogel ac yn hapus.



5. Gwybod y gwahaniaeth rhwng gwirfoddolwyr a staff a chadw hyn yn glir.




6. Gofyn i’r gwirfoddolwyr beth maen nhw’n ei feddwl o’u gwirfoddoli a gwrando arnyn nhw.



7. Dysgu sut mae rolau gwirfoddoli gwahanol yn gallu cael mwy o wirfoddolwyr a gwirfoddolwyr **amrywiol** i ni.

Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, pobl:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau.
- Gyda galluoedd gwahanol.
- Credu mewn gwahanol bethau.
- Hunaniaethau rhywiol gwahanol.
- Gwneud dewisiadau gwahanol.
- Maen nhw yn oedrannau gwahanol.




8. Darganfod pam mae gwirfoddolwyr eisiau gwirfoddoli a'u helpu i gyrraedd eu nodau.





9. Croeso i bobl **amrywiol** i wirfoddoli. Dweud wrthyn nhw sut i wirfoddoli mewn nifer o ffyrdd, fel defnyddio gwefan Gwirfoddoli Cymru.



10. Dilyn y cyngor gorau ar wirfoddoli a gwrando ar **Gynghorau Gwirfoddol Sirol** lleol. Eu gwaith nhw ydy rhoi cyngor am wirfoddoli.



11. Cael gwybodaeth dda am wirfoddolwyr. Dysgu sut mae gwirfoddoli'n dda iddyn nhw ac i wasanaethau.



12. Gadael i wirfoddolwyr ddweud beth maen nhw’n feddwl.



13. Dysgu’r bobl sy’n helpu gwirfoddolwyr sut i’w rheoli’n dda.



14. Cyfarfod a siarad am sut i gael mwy o wirfoddolwyr.

# Cynllun gweithredu

Rydyn ni yn bwriadu gwneud y pethau yma:



- Parhau i weithio yn ein hardal i ddysgu am wahanol rolau gwirfoddoli a beth mae gwirfoddolwyr ei angen. Mae hyn yn bwysig wrth i ni weithio'n agosach gyda gwirfoddolwyr.



- Dweud wrth bobl sut mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwasanaethau'n well, yn enwedig mewn iechyd a gofal.




- Gwneud 3 ffordd yn ein hardal i bobl siarad am wirfoddoli:



1. **Lleisiau gwirfoddol**. Gwneud amser i wirfoddolwyr o fewn ein sefydliadau gyfarfod yn ein hardal.



Fe fydd hyn yn dangos sut mae gwirfoddolwyr yn gwneud yn dda ac yn eu helpu i fwynhau gwirfoddoli. Fe fydd yn eu helpu i wneud ffrindiau. Fe fydd gwirfoddolwyr yn helpu i gynllunio a chynnal y cyfarfodydd hyn.



2. **Rheolwyr gwirfoddol**. Gwneud grŵp o reolwyr gwirfoddol o wahanol sefydliadau i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Fe fydd y grŵp yma yn gweithio ar:



- Casglu gwybodaeth dda.
- Dod o hyd i wirfoddolwyr **amrywiol**.



- Gwneud gwirfoddoli'n ddiogel.
- Dod o hyd i ffyrdd newydd i bobl wirfoddoli.



- Dangos sut mae un person yn gallu gwirfoddoli ar gyfer gwahanol sefydliadau.



3. Grŵp **Strategaeth Gwirfoddoli Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg**. Mae hwn yn grŵp llai sy'n canolbwyntio ar wirfoddoli a'r cynllun yma.

# Geiriau anodd

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, pobl:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau.
- Gyda galluoedd gwahanol.
- Credu mewn gwahanol bethau.
- Hunaniaethau rhywiol gwahanol.
- Gwneud dewisiadau gwahanol.
- Maen nhw yn oedrannau gwahanol.